

## DAFYDD TREFOR, Syr, neu David ap Hoell ab Ieuan ab Iorwerth (bu farw 1528?), offeiriad a bardd

**Enw:** Dafydd Trefor

**Dyddiad marw:** 1528?

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** offeiriad a bardd

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth

**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ganwyd ym mhlwyf Llanddeiniolen, Sir Gaernarfon, medd **John Jones** ('Myrddin Fardd') yn **Cwrtmawr MS 561C**; yn ei 'Cywydd i ofyn Geifr' sonia am ei 'ewythr,' Morgan ap Hywel, Llanddeiniolen. Ceir crynodeb, gan Irene George (Lloyd-Williams), yn *Transactions of the Anglesey Antiquarian Society*, 1934, o'r hyn a gasglesid ganddi hyd y flwyddyn honno am hanes y bardd. Mewn rhestr o glerigwyr esgobaeth Bangor yn 1504 dywedir fod Syr Dafydd Trefor yn rheithor Llanygrad, sef Llaneugrad-cum-Llanallgo, sir Fôn, a'i fod yn ganon. Dyma a ddywed ef amdano'i hun mewn gweithred gyfreithiol a arwyddwyd ganddo yn 1524 pan oedd yn trosglwyddo ' Tyddyn Hwfa ' yn ymyl eglwys Llangeinwen i **Owen Holland** ac eraill: 'Ego dominus david Trevor clericus alias dictus dominus david ap hoell ap Ieuan ap Iorwerth Rector ecclesie parochialis de Ilanallgo in comitatu anglesega' (N.L.W. Carreglwyd Document 1824). Bu iddo ran mewn cyngaws cyfreithiol yn 1513 (*Transactions of the Anglesey Antiquarian Society and Field Club*, 1927. Supp.). Y mae marwnad iddo gan **Ieuan ap Madoc** a chan fod y marwnadwr yn cyfeirio at golli dau fardd arall tua'r un adeg - sef **Tudur Aled** (bu farw 1526) a **Lewis Môn** (bu farw 1527) - tybir i Syr Dafydd yntau farw yn 1527 neu yn gynnar yn 1528. Dywed **Edward Lhuys** mai yn Llanallgo y claddwyd ef - 'a rhai or plwy a dhangossant i vedh.'

Canodd wyth o gywyddau 'gofyn' ('i ofyn telyn a gorderch ' ydyw'r mwyaf adnabyddus o'r rhain), pedwar cywydd 'canmol' (yn eu plith un i ' **Deiniol** Bangor'), tri chywydd 'duwiol,' tri chywydd 'marwnad' (un ohonynt i'r **brenin Harri VII**), un cywydd yn disgrifio ' Ysgraff Porthaethwy,' a dau gywydd 'ateb'; argreffir 16 o'r cywyddau yn *Transactions of the Anglesey Antiquarian Society and Field Club*, 1935.

### Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

### Ffynonellau

At y cyfeiriadau a roddir uchod ychwaneger traethawd M.A. (Prifysgol Cymru) gan Irene George (Lloyd-Williams) yn LI.G.C

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732761

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeiriodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Davies, W. Ll., (1953). DAFYDD TREFOR, Syr, neu David ap Hoell ab Ieuan ab Iorwerth (bu farw 1528?), offeiriad a bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAFY-TRE-1528>

Prifysgol Cymru

Preifatrwydd a Chwci  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government